

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Papur Pwnc Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd



Chwefror 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol Llywodraeth Cymru.....	4
Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018.....	4
Amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 (MYE).....	6
Cyfrifiad 2021.....	6
Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.....	6
3. Proffil Sir Gaerfyrddin.....	7
4. Senarios Demograffig.....	8
2 ^{il} CDLI Adneuo.....	8
Amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018.....	10
Amrywiolyn "Poblogaeth Uchel" Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018.....	11
Amrywiolyn "Poblogaeth Isel" Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018.....	11
Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd deng mlynedd.....	12
Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd pymtheng mlynedd.....	12
Prif amcanestyniadau wedi'u hail-sylfaenu- (Tuedd pum mlynedd).....	13
Senario dan arweiniad cyflogaeth sylfaenol.....	13
5. Opsiwn a Ffeirir y CDLI Diwygiedig.....	14
Crynodeb o ofynion twf tai'r CDLI Diwygiedig blaenorol.....	14
Dewis gofyniad twf tai'r 2 ^{il} CDLI Diwygiedig Adneuo.....	14
Tystiolaeth Mudo yn yr amcanestyniadau wedi'u hail-sylfaenu.....	14
Crynodeb.....	15
Atodiad 1 – Crynodeb o senarios blaenorol y CDLI Diwygiedig.....	16
Amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014.....	16
Amcanestyniad (ymfudiad cyfartalog dros 10 mlynedd) Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 (o astudiaeth 2018).....	17
Amcanestyniad Tymor Byr o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018).....	18
Amcanestyniad Twf Poblogaeth 10 mlynedd (o astudiaeth 2018).....	19
Amcanestyniad Tymor Hir o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018).....	20
Amcanestyniad Twf cyn y Dirwasgiad (o astudiaeth 2018).....	21
Twf Poblogaeth Tymor Byr – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019).....	22
Twf Poblogaeth Tymor Hir – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019).....	23
Twf Poblogaeth – Amrywiolyn 10 mlynedd (o astudiaeth 2019).....	24
Senarios a arweinir gan gyflogaeth.....	24

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi a chadw'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn gyfredol¹. Mae'r CDLI yn pennu'r polisiâu cynllunio ac yn dyrannu safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli datblygiadau, sy'n cynnwys prosesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio gan ddefnyddio'r CDLI i arwain a rheoli datblygiadau trwy osod y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a chlir.

1.2 Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth a Ffefrir, a oedd yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r rhan honno o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth, comisiynodd y Cyngor Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o senarios demograffig ac economaidd i lywio amcanestyniad twf tebygol ar gyfer y sir yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun 2018-2033. Ar sail yr amrywiaeth o dystiolaeth ddemograffig ac economaidd a gyflwynwyd yn yr adroddiad, roedd y Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor yn nodi gofyniad tai o 9,887 o anheddau (2018-2033), sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r senario o ran Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir a gyflwynwyd yn nadansoddiad Edge Analytics.

1.3 Wrth ystyried yr amcanestyniad hwn fel sail ar gyfer y CDLI diwygiedig, roedd yn ceisio alinio nifer o ffactorau i gefnogi'r twf hwnnw, gan gynnwys cyfraddau adeiladu'r gorffennol, creu swyddi, dyheadau economaidd, a chefnogi cadw pobl iau yn y sir, ymysg pethau eraill.

1.4 Diweddarwyd yr amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd gan Edge Analytics ar gyfer y CDLI Diwygiedig Adneuo 1^{af} yn gynnar yn 2020 a oedd yn diweddarau amrywiol senarios gofyniad tai yng ngoleuni amrywiaeth o dystiolaeth newydd, gan gynnwys amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2018 Sir Gaerfyrddin a'r ymgynghoriad ar y fersiwn drafft fel yr oedd ar y pryd o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd adroddiad Edge Analytics hefyd yn ystyried perthynas amcanestyniadau twf cyflogaeth fel rhan o'i waith o gysoni â'r gofynion o ran twf tai. Nodir y senarios hyn yn Atodiad 1.

1.5 O ystyried y gofyniad i ddarparu tystiolaeth wedi'i diweddarau fel rhan o'r 2^{il} CDLI Adneuo, comisiynodd y Cyngor Turleys (gyda chefnogaeth Edge Analytics) i ymgymryd â Phapur Tai a Thwf Economaidd i adlewyrchu amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol

¹ Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol 2005 yn gosod y fframwaith a chyd-destun cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru.


Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018, yn ogystal â'r amcangyfrif poblogaeth arall a gyhoeddwyd ers y CDLI Diwygiedig Adneuo cyntaf.

1.6 Wrth asesu'r senario a ffeirir tebygol ar gyfer yr 2^{il} Fersiwn Adneuo, rhoddir sylw dyledus i bolisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol ac i ffactorau sy'n codi yn y materion, yr opsiynau a'r amcanion sy'n dod i'r amlwg yn y CDLI. Wrth gefnogi'r dystiolaeth ar gyfer y Papur hwn, ystyrir cynnwys y Papur Rôl a Swyddogaeth, y Papur Opsiynau Strategol a Gofodol a'r Weledigaeth a'r Opsiynau Strategol.

2. Amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol Llywodraeth Cymru

2.1 Ers cychwyn y broses Cynllun Datblygu Lleol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pum set o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd. Roedd ystadegau mudo net uchel (yn fewnol ac yn rhyngwladol) wedi dylanwadu ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2006 a 2008. Nododd yr ystadegau hyn dwf sylweddol ar gyfer Sir Gaerfyrddin (fel yr adlewyrchir yn y CDLI mabwysiedig). Fodd bynnag, roedd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2011 a 2014 yn adleisio cyfnod ôl-ddirwasgiad a ddangosai duedd mewnfudo is. O ganlyniad mae'r gofyniad twf disgwylidiedig mewn aelwydydd llawer yn is ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

2.2 Mae Ffigur 1 yn dangos y gwahaniaeth clir rhwng yr amcangyfrifon twf poblogaeth ym mhob un o'r pedwar amcanestyniad cyntaf a gyhoeddwyd. Mae hyn yn dangos anwadalwch yr amcanestyniadau ar sail tueddiadau, ac ni ellir ystyried nodi gofyniad tai rhesymol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn erbyn y prif amcanestyniadau yn unig, ond dylai ystyried nifer o ffactorau amrywiol sy'n dylanwadu ar newid yn y boblogaeth.



Ffigur 1 Amcanestyniadau Caerfyrddin o ddata Llywodraeth Cymru

Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018


2.3 Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r amcanestyniadau swyddogol diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018. Mae'r prif amcanestyniad yn seilio ei rhagdybiaethau i raddau helaeth ar y tueddiadau demograffig a gofnodwyd dros y pum mlynedd blaenorol (2013-2018) gan felly roi syniad o sut y gallai poblogaeth Sir Gaerfyrddin newid pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau. Mae cyfres o amrywiolion hefyd ar gael, gan gynnwys amrywiolion "uchel" ac "isel"

sy'n gwneud rhagdybiaethau mwy optimistaidd a phesimistaidd ar ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo o rannau eraill o'r DU.

2.4 Ar lefel Cymru, mae'r gyfradd genedigaethau wedi parhau i ostwng (gyda chyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb wedi gostwng o 1.78 yn 2014 i 1.63 yn 2018), ac mae gwelliannau mewn disgwyliad oes wedi arafu, tra bod patrymau mudo wedi bod yn codi a gostwng. Ar gyfer Sir Gaerfyrddin, mae nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau, gyda mudo net positif yn cefnogi'r cynnydd yn y boblogaeth.

2.5 Tynnodd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 i raddau helaeth ar dueddiadau cyn cyfnod y cynllun presennol ac awgrymodd y byddai'r aelwyd arferol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys 2.05 o bobl yn 2021. Roedd yr amcanestyniadau diweddaraf yn seiliedig ar 2018, mewn cyferbyniad, yn tynnu ar dueddiadau mwy diweddar ac yn rhagweld cyfartaledd o 2.26 o bobl i bob aelwyd yn yr un flwyddyn. Mae'r data cychwynnol o'r Cyfrifiad diweddaraf yn awgrymu bod yna ychydig yn fwy (2.30) na'r disgwyl hyd yn oed yn ôl yr amcanestyniad mwyaf cyfoes.

2.6 Mae'r amcanestyniadau swyddogol hyn yn awgrymu y gallai Sir Gaerfyrddin gynnwys cymaint â 9,460 o drigolion ychwanegol rhwng 2018 a 2033, neu gyn lleied â 1,650. Mae'r prif amcanestyniad yn eistedd ychydig yn uwch na chanolbwynt yr amrediad hwn ac yn awgrymu y gallai fod yna 6,197 o drigolion ychwanegol erbyn diwedd cyfnod y CDLI Diwygiedig



Ffigur 2 - yn cyflwyno'r amrywiolion o fewn amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018

2.7 Mae'r amcanestyniadau yn awgrymu y byddai twf yn y boblogaeth yn cael ei yrru ym mhob achos gan fewnfudo net o rannau eraill o'r DU. Mae'r prif amcanestyniad yn caniatáu

mewnlfif net cyfartalog o tua 1,043 o bobl y flwyddyn, gan gynyddu i 1,111 y flwyddyn o dan yr amrywiolyn uchel - sy'n dal yn llai na'r cyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf (1,265 y flwyddyn) ac yn gostwng i 974 o dan yr amrywiolyn isel. Mae pob senario yn gyson yn caniatáu mewnlfif net o tua 209 o ymfudwyr rhyngwladol y flwyddyn, gyda'r dybiaeth hon ddim yn amrywio ac yn gyson â'r tueddiadau byrdymor a hirdymor. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau'n uwch na nifer y genedigaethau ym mhob senario, gyda newid naturiol felly'n parhau i gael effaith gyson negyddol ar y boblogaeth sydd fwyaf amlwg o dan yr amrywiolyn isel.

Amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 (MYE)

2.8 Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn yn cyfeirio at y boblogaeth ar 30 Mehefin 2020. Mae'r amrywiol senarios demograffig yn defnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel eu blwyddyn sylfaen.

Cyfrifiad 2021

2.9 Mae'n bwysig cydnabod bod y senarios hyn, yr un modd â'r amcanestyniadau swyddogol, yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin ychydig yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn flaenorol. Wrth i'r CDLI Diwygiedig gael ei archwilio, bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i ategu'r casgliadau a nodir yn y papur hwn.

Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

2.10 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw ein fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Llanelli ac ardal Rhydaman / Cross Hands fel rhan o'r ardal Twf Cenedlaethol ar gyfer rhanbarth y De-orllewin (sy'n cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro). Mae Caerfyrddin hefyd wedi'i nodi'n ganolfan ranbarthol a gefnogir gan ddull 'twf a reolir' i wella ei rôl ranbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod angen 25,600 o gartrefi ychwanegol yn rhanbarth y De-orllewin erbyn 2039. Nodir bod Cymru'r Dyfodol wedi'i seilio ar brif amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2018 heb ymyrraeth polisi. Nid yw felly'n ystyried y mân amrywiadau lleol a chyfeiriad strategol pob awdurdod lleol ar ddatblygiad cymunedau.

3. Proffil Sir Gaerfyrddin

3.1 Gyda phoblogaeth o 187,900 yn 2021, mae Sir Gaerfyrddin yn gartref i oddeutu 6% o gyfanswm poblogaeth Cymru, sy'n golygu mai dyma'r pedwerydd Awdurdod Unedol mwyaf yng Nghymru (ar ôl Caerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf). Fodd bynnag, o ystyried arwynebedd tir Sir Gaerfyrddin, mae gan yr Awdurdod Unedol ddwysedd poblogaeth o ddim ond 78 o bobl i bob cilometr sgwâr, sy'n golygu mai dim ond Powys, Sir Benfro, Gwynedd a Cheredigion sy'n deneuach eu poblogaeth.

3.2 Mae Sir Gaerfyrddin yn ffinio â Sir Benfro i'r Gorllewin, Ceredigion i'r Gogledd, Powys i'r Dwyrain, a Chastell-nedd Port Talbot ac Abertawe i'r De-ddwyrain. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gorchuddio tua 9% o Sir Gaerfyrddin, ac amcangyfrifir bod 1% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw yn y Parc Cenedlaethol.

3.3 Ers 2011 mae data'r Cyfrifiad yn dangos bod cynnydd o + 4,100 o bobl wedi bod ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin, sy'n cyfateb i gynnydd o 2.2%. Cofnodwyd twf blynyddol uwch yn y boblogaeth (+0.7% y flwyddyn ar gyfartaledd) cyn 2008, gyda thwf blynyddol sy'n amlwg yn is yn cael ei gofnodi wedi hynny. Gellir priodoli cyfansoddiad poblogaeth y sir i'r canlyniadau canlynol:

- Mae Twf Naturiol yn gostwng - mae mwy o bobl yn marw nag sy'n cael eu geni.
- Mewnllif o fudo mewnol sydd wedi bod yn brif ysgogydd o ran newid yn y boblogaeth.
- Roedd mudo net yn uchel tan 2008, ac yna'n isel. Ers 2013/14 mae'r newid yn y boblogaeth wedi bod yn cynyddu ac mae cynnydd sydyn wedi bod yn lefel y mewnllif net, gan gyrraedd tua +1600 yn 2017/18 a chan ddangos cynnydd sylweddol o fwy na 700 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae cynnydd o 18.9% wedi bod mewn pobl 65 oed a throsodd
- Gostyngiad o 2.5% mewn pobl rhwng 15 a 64 oed.
- Gostyngiad o 0.8% mewn plant o dan 15 oed.
- Cofnodir mewnllif net ym mhob grŵp oedran hŷn (65+), gan gyfrannu at broffil poblogaeth sy'n heneiddio Sir Gaerfyrddin.
- Mae cyfran y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a gafodd eu geni y tu allan i'r DU wedi gostwng 1% ers y Cyfrifiad diwethaf

4. Senarios Demograffig

4.1 Mae'r gofyniad i ymgymryd â senarios amgen ar gyfer twf poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn amlwg gyda data amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 yn amlygu potensial twf cyfyngedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

4.2 Comisiynwyd Turley gan y Cyngor (gyda chymorth gwaith demograffig Edge Analytics) i ymgymryd â Phapur Tai ac Economaidd i ddarparu amrywiol senarios demograffig i lywio'r cyfleoedd twf yn y dyfodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin ar gyfer cyfnod y cynllun 2018-2033. Er nad oes un farn bendant ynglŷn â'r twf tebygol sydd i'w ddisgwyl yn Sir Gaerfyrddin, yn y pen draw bydd cyfuniad o faterion demograffig, economaidd a materion polisi lleol yn pennu cyflymdra a maint y newid.

4.3 Mae Atodiad 1 o'r Papur hwn yn rhoi crynodeb o'r holl amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd posibl o'r Strategaeth Cyn-Adneuo a Ffefrir a'r CDLI Adneuo 1^{af}. Mae'r crynodebau hyn er mwyn cyfeirio atynt yn unig o gofio bod y CDLI Diwygiedig yn cael ei ystyried yn erbyn y data o'r amcanestyniadau is-genedlaethol yn seiliedig ar 2018.

2^{il} CDLI Adneuo


4.4 Mae'r dystiolaeth o fewn Adroddiad Turley yn seiliedig ar ardaloedd Sir Gaerfyrddin sydd y tu allan i Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er gwybodaeth, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn nodi ei strategaeth twf poblogaeth ac aelwydydd ei hun gan mai dyma'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y rhan o Sir Gaerfyrddin sydd yn y Parc.

4.5 Mae'r senarios demograffig a gafodd ystyriaeth gan Turley yn adroddiad 2022 yn cynnwys:

- **Prif Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018** - yn atgynhyrchu *Prif* amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r boblogaeth hanesyddol ar gyfer 2001–2018.
- **Amrywiad Uchel Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018** - mae'n atgynhyrchu amcanestyniad poblogaeth *Uchel* Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r boblogaeth hanesyddol ar gyfer 2001–2018 ac yn ymgorffori ffrwythlondeb uchel, disgwyliad oes a rhagdybiaethau mudo.

- **Amrywiad Isel Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018** - mae'n atgynhyrchu amcanestyniad poblogaeth /sel/ Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r boblogaeth hanesyddol ar gyfer 2001–2018 ac yn ymgorffori ffrwythlondeb isel, disgwyliad oes a rhagdybiaethau mudo.
- **Amcanestyniad seiliedig ar duedd deng mlynedd** - yn defnyddio blwyddyn sylfaen amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn calibreiddio ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 10 mlynedd (2010/11–2019/20).
- **Amcanestyniad seiliedig ar duedd pymtheng mlynedd** - yn defnyddio blwyddyn sylfaen amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn calibreiddio ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 15 mlynedd (2005/06–2019/20).
- **Prif amcanestyniad wedi'i ail-sylfaenu – mae'n ail-sylfaenu'r Prif amcanestyniad** trwy symud ei duedd pum mlynedd ymlaen i 2020
- **Senarios sy'n cael eu harwain gan gyflogaeth sylfaenol** - maent yn modelu effaith twf cyflogaeth blyneddol cyfartalog o +316 y flwyddyn ar y boblogaeth (wedi i Turley, yn annibynnol, gymhwyso rhagdybiaeth o ddwy swydd) rhwng 2020 a 2036,

4.6 Mae'r angen am dai sy'n gysylltiedig â phob senario yn cael ei ddarlunio ymhellach, a'i feincnodi yn erbyn darpariaeth y gorffennol, yn Ffigur 3 isod. Dylid nodi bod y gyfradd gwacter wedi'i gosod ar 3.8% sef y data Treth Gyngor diweddaraf.



Source: Welsh Government; Edge Analytics; Council monitoring; Turley analysis

Ffigur 3

Amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+6,197**

Gofyniad tai newydd: **+ 291 y flwyddyn**

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 4,359 o dai

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+201**

Casgliad:

4.7 Byddai defnyddio'r duedd hon o ran twf ar gyfer CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn cael effaith anffafriol ar uchelgeisiau strategol y Cyngor o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Byddai'r senario twf cartrefi a thwf swyddi o'r prif amcanestyniad yn seiliedig ar 2018 yn arwain at lawer llai o dwf nag a nodwyd yn y cyfraddau adeiladu hanesyddol ers 2007. Byddai hyn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 42% yn is na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau.

4.8 O ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer y CDLI Diwygiedig.

4.9 Ni fyddai defnyddio'r senario hwn yn cyflawni gweledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun.

Amrywiolyn "Poblogaeth Uchel" Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+9,460**

Gofyniad tai newydd: **+ 378 y flwyddyn**

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 5,670 o dai

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+257**

Casgliad:

4.10 Mae'r senario hwn yn defnyddio prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 ond yn ychwanegol yn mewnbynnu ffrwythlondeb uchel, disgwyliad oes a rhagdybiaethau mudo i'r model. Mae'r gofyniad tai newydd yn sylweddol is na chyfradd y ddarpariaeth a gofnodwyd yn y tueddiadau hanesyddol. Byddai hyn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 24.5% yn is na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau.

4.11 Byddai'r ffigur creu swyddi (er yn fwy na'r prif Amcanestyniad) yn dal i ddangos twf economaidd gwannach.

4.12 O ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio'r senario Amcanestyniad Uchel fel yr opsiwn twf ar gyfer y CDLI diwygiedig. Ni fyddai'n cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun.

Amrywiolyn "Poblogaeth Isel" Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033 - **+1,650**

Gofyniad tai newydd: **+178 y flwyddyn**

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: **2,670**

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+143**

Casgliad

4.13 Mae'r senario hwn yn defnyddio prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 ond yn ychwanegol yn mewnbynnu ffrwythlondeb isel, disgwyliad oes a rhagdybiaethau mudo i'r model. Mae'r gofyniad tai newydd yn sylweddol is na chyfradd y ddarpariaeth a gofnodwyd yn y tueddiadau hanesyddol, a 1,689 yn llai o anheddau na'r prif amcanestyniad yn seiliedig ar 2018 yn ystod cyfnod y Cynllun.

4.14 Y ffigur creu swyddi yw'r isaf o holl senarios yr amcanestyniadau a byddai'n cyfrannu at dwf economaidd gwan.

4.15 O ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio'r senario Amcanestyniad Amrywiolyn Isel fel yr opsiwn twf ar gyfer y CDLI diwygiedig. Ni fyddai'n cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun.

Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd deng mlynedd

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+14,468**

Gofyniad tai newydd: **+ 588** y flwyddyn

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: **8,822**

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+276**

Casgliad:

4.16 Mae'r senario hwn yn ail-sylfaenu prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru i gymryd dwy flynedd arall o ddata hysbys i ystyriaeth ac yn cynyddu hyd y cyfnod tueddiad i 10 mlynedd.

4.17 At ei gilydd, byddai defnyddio'r senario hwn yn darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Byddai hyn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 17.3% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau. Byddai'n caniatáu'r hyblygrwydd i yrru twf tai cynaliadwy ac yn cyfrannu at gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.

Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd pymtheng mlynedd

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+15,854**

Gofyniad tai newydd: **+ 618** y flwyddyn

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: **9,272**

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+353**

Casgliad:

4.18 Mae'r senario hwn yn ail-sylfaenu prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru i gymryd dwy flynedd arall o ddata hysbys i ystyriaeth ac yn cynyddu hyd y cyfnod tueddiad i 15 mlynedd.

4.19 At ei gilydd, byddai defnyddio'r senario hwn yn darparu rhagolwg cadarnhaol ar gyfer twf tai a chreu swyddi. Byddai hyn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 23.3% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau. Ystyrir fodd bynnag bod y gofyniad o 618 o dai newydd y flwyddyn ychydig yn fwy na photensial twf tai'r Cynllun.

4.20 Byddai defnyddio'r senario hwn yn cynorthwyo o ran cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Prif amcanestyniadau wedi'u hail-sylfaenu- (Tuedd pum mlynedd)

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+17,635**

Gofyniad tai newydd: **+ 697 y flwyddyn**

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: **10,445**

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+401**

Casgliad

4.21 Mae'r senario hwn yn ail-sylfaenu prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru i gymryd y ddwy flynedd arall o ddata hysbys i ystyriaeth ac yn cynnal 5 mlynedd o ddata.

4.22 Er y byddai'r senario hwn yn uchelgeisiol o ran hyrwyddo dyheadau economaidd, byddai gosod gofyniad twf mor uchel yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni na'i chynnal. Byddai'r senario hwn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 39.1% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau.

4.23 Ni fyddai'r senario hwn yn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Senario dan arweiniad cyflogaeth sylfaenol

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+16,407**

Gofyniad tai newydd: **+ 662 y flwyddyn**

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: **9,933**

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+337**

Casgliad:

4.24 Mae'r senario hwn yn defnyddio data sylfaenol Experian a'r prif amcanestyniad i gyfateb y swyddi a gaiff eu creu i dwf aelwydydd.

4.25 Er y byddai'r senario hwn yn uchelgeisiol o ran hyrwyddo dyheadau economaidd, byddai gosod gofyniad twf mor uchel drwy'r senario dan arweiniad cyflogaeth sylfaenol yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chynnal na'i chyflawni. Byddai'r senario hwn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 32.1% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau

4.26 Ni fyddai'r senario hwn yn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun.

5. Opsiwn a Ffefrir y CDLI Diwygiedig

Crynodeb o ofynion twf tai'r CDLI Diwygiedig blaenorol

5.1 O fewn Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir y CDLI Diwygiedig, y senarios Twf Poblogaeth Tymor Hir o astudiaeth 2018 Edge Analytics oedd yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf priodol i Sir Gaerfyrddin. Dilynwyd hyn gan dystiolaeth wedi'i diweddarau yn adroddiad 2019 Edge Analytics a nododd ostyngiad yn yr amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, gan arwain at fod y CDLI Adneuo 1^{af} yn gostwng y gofyniad tai ar gyfer cyfnod y cynllun. Dewisodd y Cyngor, wrth ymgynghori ar y fersiwn Adneuo 1^{af} yn gynnar yn 2020, gefnogi'r dystiolaeth a ddarparwyd yn senario'r amcanestyniad Twf Poblogaeth 10 mlynedd. Roedd y senario a ffefrir o Dwf Poblogaeth 10 mlynedd (2019) yn cynnwys bodloni uchelgeisiau economaidd y sir, a'r targedau creu swyddi a nodwyd yn y Cynllun Adfywio. Yn bwysicach na hynny, roedd y senario'n cyfateb i'r cyfraddau adeiladu yn y sir ers 2008. Y twf anheddau cyfartalog yn y senario hwn oedd 589 o anheddau'r flwyddyn, neu 8,835 o anheddau dros gyfnod y cynllun cyfan.

Dewis gofyniad twf tai'r 2^{il} CDLI Diwygiedig Adneuo

5.2 Wrth ystyried y potensial am dwf yn y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin, mae Turley wedi nodi nifer o senarios demograffig ac economaidd gwahanol y gellid eu defnyddio ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Mae hyn yn ymateb i'r Llawlyfr drwy ystyried demograffeg, tueddiadau'r gorffennol a ffactorau sy'n seiliedig ar bolisi yn ogystal â'r berthynas â'r economi leol. Yn ôl adroddiad Turley, er mwyn bodloni'r potensial am dwf economaidd yn Sir Gaerfyrddin, byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn tai newydd - i'r pwynt lle daw'n anghynladwy. Mae'r CDLI Diwygiedig yn ceisio gwneud y mwyaf o'i allbwn economaidd ond rhaid iddo wneud hynny yn erbyn ffactorau sylweddol eraill megis yr effaith ar y Gymraeg, a gallu'r farchnad dai i ddarparu'r lefel o dai sydd ei hangen.

Tystiolaeth Mudo yn yr amcanestyniadau wedi'u hail-sylfaenu

5.3 Mae'n ymddangos bod y mewnlif net cynyddol o rannau eraill o'r DU yn arbennig wedi bod yn cynnwys pobl o bob oed. Roedd hyn y llynedd yn cynnwys pobl rhwng 18 a 24 oed, y mae mwy ohonynt yn hanesyddol wedi tueddu i symud i rywle arall na symud i Sir Gaerfyrddin. Ymddengys fod y newid wedi'i ysgogi gan lai o allfudo, mwy na thebyg o ganlyniad i fod llai o bobl ifanc yn gadael cartref yn ystod misoedd cynnar y pandemig COVID-19. Bydd yn berthnasol yn fersiynau'r dyfodol o ddata poblogaeth os bydd y duedd yn parhau yn y blynyddoedd dilynol.

5.4 Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, pryd y cynyddodd y mewnlif net i Sir Gaerfyrddin o rannau eraill o'r DU, gwelwyd cyfartaledd o dros 2,000 o bobl yn symud rhwng y sir ac Abertawe bob blwyddyn. Dyma'r berthynas gryfaf a rennir gan Sir Gaerfyrddin o gryn dipyn, ac mae wedi dod â mewnlif net cyfartalog o tua 213 o bobl y flwyddyn. Bu mewnlif net hefyd o Geredigion, sef y sir y mae Sir Gaerfyrddin yn rhannu ei pherthynas gryfaf nesaf â hi o ran mudo gros. Dilynir hyn gan Sir Benfro a Chaerdydd, er bod y perthnasoedd hyn o gyferbyniad yn golygu *all-lif* net o'r sir. Adroddiad Turley (paragraff 2.10). Caiff canlyniadau hynny eu harchwilio mewn Papurau Pwnc eraill; fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod cyfraniad mudo net i'r sir ac oddi yno.

Crynodeb

5.5 Wrth grynhoi'r senarios a nodwyd ym Mharagraff 4.5, dim ond dwy o'r senarios sy'n darparu twf aelwydydd cytbwys a fyddai'n gefnogol i nodau strategol cyffredinol y Cyngor. Byddai'r amcanestyniad pymtheng mlynedd yn darparu rhagolwg cadarnhaol ar gyfer twf tai a chreu swyddi. Y prif fater wrth ddefnyddio'r senario hwn yw y byddai'r cyfraddau adeiladu arfaethedig yn uwch na'r hyn sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd ers 2008, gan gynnwys lwfans ar gyfer hyblygrwydd. Byddai hyn yn gyfanswm o 618 o anheddau'r flwyddyn yn erbyn cyfradd adeiladu o 527 dros y 5 mlynedd diwethaf.

5.6 Yr amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd deng mlynedd sy'n darparu'r senario twf mwyaf cytbwys ar gyfer y CDLI Diwygiedig. Y twf blynyddol o 588 o anheddau yw'r mwyaf rhesymol wrth ystyried lefelau cwblhau tai'r gorffennol. Ni fyddai'r un o'r senarios demograffig a gyflwynwyd yn flaenorol yn yr adran hon yn debygol o gefnogi lefel o dwf swyddi o'r fath, wrth dybio bod y llafurlu yn ymddwyn yn y ffordd a ddisgrifiwyd yn flaenorol yn adroddiad Turley, er bod y senario sy'n seiliedig ar duedd deng mlynedd yn debygol o fodloni'r mwyafrif o'r twf hwn, yn wahanol i'r prif senarios a'r senarios amrywiolion o amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018.


Atodiad 1 – Crynodeb o senarios blaenorol y CDLI Diwygiedig

A1.1 Mae'r senarios canlynol yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd fel rhan o Strategaeth a Ffefrir y CDLI Diwygiedig (2018) a'r CDLI Adneuo 1^{af} (2020). Bydd y crynodebau yn seiliedig ar y senarios canlynol

- Amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014
- Amcanestyniad (Ymfudiad cyfartalog dros 10 mlynedd) Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 (o astudiaeth 2018)
- Amcanestyniad Tymor Byr o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018)
- Amcanestyniad Twf Poblogaeth 10 mlynedd (o astudiaeth 2018)
- Amcanestyniad Tymor Hir o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018)
- Amcanestyniad Twf cyn y Dirwasgiad (o astudiaeth 2018)
- Twf Poblogaeth Tymor Byr – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019)
- Twf Poblogaeth Tymor Hir – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019)
- Twf Poblogaeth – Amrywiolyn 10 mlynedd (o astudiaeth 2019)
- Senarios a arweinir gan Gyflogaeth

Amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014

A1.2 Roedd senario Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 yn seilio ei ragdybiaethau ynghylch ymfudiad ar y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2009/10 a 2013/14, pan gofnodwyd mewnfudiad net i Sir Gaerfyrddin a oedd yn amlwg yn is na data blaenorol.




Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
WG 2014-based (Principal)	2,581	1.4%	2,878	3.6%	481	205	199

A1.3 Byddai defnyddio'r duedd hon o ran twf ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi effeithio'n sylweddol ar uchelgais strategol Sir Gaerfyrddin o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Mewn egwyddor, byddai'r newid yn y boblogaeth ar gyfer y rheiny o dan 65 oed wedi bod yn un negyddol. Byddai hyn wedi cael effaith sylweddol ar y llafurlu o fewn Sir Gaerfyrddin, gan arwain at all-lif net o weithwyr a thrigolion i ardaloedd y tu allan i'r Sir.

A1.4 Ni fyddai defnyddio'r senario hwn wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Amcanestyniad (ymfudiad cyfartalog dros 10 mlynedd) Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 (o astudiaeth 2018)

A1.5 Roedd yr amcanestyniad hwn yn defnyddio rhagdybiaethau newid naturiol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 ond roedd hefyd yn ystyried y cyfnod ymfudo o 10 mlynedd rhwng 2003/2004 a 2012/13. Roedd y duedd hon yn defnyddio cyfnod ymfudo cyn y dirwasgiad, ac ar ôl y dirwasgiad, a fyddai wedi gweld newid poblogaeth ac aelwydydd o 5.8% a 7.7% yn y drefn honno yn ystod cyfnod y cynllun o 2018–2033.



Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
WG 2014 (10yr Av Mig)	10,842	5.8%	6,322	7.7%	921	450	436	6,746	6,542

A1.6 Roedd patrwm y newid yn y boblogaeth o fewn y senario hwn yn debyg, (er ar lefel is) i'r hyn a welwyd ym mhrif amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014. Pennwyd y newid yn y boblogaeth fel 29% ar gyfer y rheiny sydd dros 65+, ac fel 67% ar gyfer y rheiny sydd dros 80+ oed, tra bod newid negyddol o 1% ar gyfer y rheiny sydd yng ngrŵp oedran y llafurlu.


A1.7 Byddai'r ymfudiad net ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol wedi golygu bod all-lif mawr o fewn y grŵp oedran 15-19, ond mewnlifiad net ym mhob carfan oedran arall.

A1.8 Byddai'r gofyniad tai o fewn y senario hwn (cyfradd gwacter Cyfrifiad 2011) wedi cyfateb i 450 o anheddau y flwyddyn, a fyddai'n llai na'r hyn sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin ar sail flynyddol gyfartalog. Roedd hyn yn cyfateb i 6,746 o anheddau dros gyfnod y CDLI o 2018–2033.

A1.9 Ni fyddai wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun.

Amcanestyniad Tymor Byr o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018)

A1.10 Roedd y senario Twf Poblogaeth Tymor Byr yn seiliedig ar gyfraddau mudo mewnol a rhagdybiaethau llif mudo rhyngwladol o gyfnod hanesyddol o chwe blynedd (2011/12–2016/17). Roedd hwn yn gyfnod amser tebyg i amcanestyniad Llywodraeth Cymru (h.y. 5–6 blynedd), ond roedd yn cynnwys tair blynedd o ddata ychwanegol.



Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG Short Term	10,639	5.7%	6,772	8.4%	1,082	482	467


A1.11 Roedd y duedd hon yn cynyddu canran y newid yn y boblogaeth ac mewn aelwydydd o'r un yn amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014, ond mae'r all-lif ymhlith y rheiny sydd yn y garfan oedran 15-19 wedi cynyddu.

A1.12 Byddai'r amcanestyniad Twf Poblogaeth Tymor Byr wedi atal unrhyw gyfleoedd datblygu ar gyfer y sir yn y dyfodol a byddai wedi golygu na fyddai'r ymgyrch gorfforaethol ar gyfer twf cyflogaeth newydd wedi cael ei bodloni, a byddai'n gwrthdaro ag elfennau eraill o strategaeth y CDLI. Yn sgil y cyfuniad o ostyngiad yng nghanrannau newid poblogaeth y carfannau 16-64 oed, sef oedran y gweithlu, a chynnydd yn y garfan oedran 65+, amcangyfrifwyd y byddai 126 o swyddi ychwanegol y flwyddyn yn cael eu creu ar gyfer y sir. Gan na fyddai'r senario yma wedi ysgogi swyddi ychwanegol i gael eu creu, byddai wedi arwain at all-lif gweithwyr a thrigolion o'r sir. Roedd hyn yn golygu y byddai yna oblygiadau wedi bod o ran cadw pobl ifanc yn y sir i fyw a gweithio a byddai wedi syrthio'n brin o'r targedau a nodir yng *Nghynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin*.

A1.13 Ni fyddai wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun.

Amcanestyniad Twf Poblogaeth 10 mlynedd (o astudiaeth 2018)

A1.14 Roedd yr amcanestyniad 10 mlynedd o Dwf y Boblogaeth yn defnyddio'r duedd ymfudo dros y 10 mlynedd flaenorol, a oedd yn ystyried ychydig flynyddoedd cyntaf y cyfnod cyn y dirwasgiad, ond gyda'r mwyafrif o'r data ynghylch ymfudo yn ymwneud â'r blynyddoedd ers 2008.



Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG 10yr	11,799	6.3%	6,993	8.6%	1,128	497	482


A1.15 Roedd y duedd hon yn cynnig safbwynt ychydig yn fwy optimistaidd na'r hyn a ystyriwyd yn y data ymfudo 10 mlynedd o amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014, ac mae'n debyg i'r senario twf poblogaeth tymor byr. Roedd y senario hwn yn nodi allfudo net y rheiny yn y carfannau 15–19 a 25–29 oed, gyda mewnfudo net cymharol yn y carfannau 30+ oed.

A1.16 Er bod cyflawni 497 neu 482 o anheddau y flwyddyn yn debyg i'r hyn a gyflawnwyd ers 2007, nid oedd yn cynnig yr hyblygrwydd i ddilyn ymlaen o'r blynyddoedd hynny pan oedd cyflawni tai a'r farchnad dai wedi bod yn fwy bywiog. O ganlyniad i gyfyngu ar y gofyniad tai drwy'r senario hwn, cyfyngwyd ar uchelgeisiau economaidd Sir Gaerfyrddin o ran creu swyddi a darparu cyfleoedd i oedolion iau fyw a gweithio yn y Sir.

A1.17 Ni fyddai'r senario hwn wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Amcanestyniad Tymor Hir o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018)

A1.18 Roedd y senario Twf Poblogaeth Tymor Hir yn seiliedig ar gyfraddau mudo mewnol a rhagdybiaethau llif mudo rhyngwladol o gyfnod hanesyddol o 16 blynedd (2001/02–2016/17). Roedd y cyfnod hwn yn ystyried y llif mewnfudo net uchel yn ystod 2001-2008 a'r mewnfudo net is ar ôl 2008.



Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG Long Term	17,502	9.4%	9,505	11.7%	1,505	676	656

A1.19 Wrth ddefnyddio'r cyswllt rhwng twf poblogaeth a thwf swyddi, byddai'r senario twf poblogaeth Tymor Hir wedi darparu rhagolwg mwy optimistaidd o ran ceisio cyflawni'r targedau a amlinellwyd yng *Nghynllun Adfywio Strategol* Sir Gaerfyrddin, gyda chynnydd mwy yn y boblogaeth yn cefnogi creu tua 353 o swyddi ychwanegol y flwyddyn. Roedd hyn yn cyfateb i 5,295 o swyddi ychwanegol dros gyfnod y CDLI diwygiedig.


A1.20 O ran cyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir, ystyriwyd mai'r senario hwn oedd y mwyaf priodol i Sir Gaerfyrddin. Roedd yn darparu rhagolygon cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer darparu tai yn y sir. 485 o dai y flwyddyn yw'r cyfraddau codi tai yn Sir Gaerfyrddin ers 2007 (ar gyfartaledd) gyda 507 o anheddau'r flwyddyn ar gyfartaledd yn cael eu cyflawni yn y pedair blynedd ers 2015. Byddai hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd i hybu twf cynaliadwy mewn tai ac yn cefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.

A1.21 Nododd y senario dwf poblogaeth uwch na'r mwyafrif o'r senarios a ystyriwyd a byddai wedi gweld pobl rhwng 15 a 19 oed yn parhau i adael y sir; fodd bynnag, gwnaeth nodi mewnfudo net cyson ym mhob carfan oedran arall a fyddai wedi arwain at ragolwg demograffig cytbwys ar gyfer y sir.

A1.22 Byddai defnyddio'r senario hwn wedi cynorthwyo o ran cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Amcanestyniad Twf cyn y Dirwasgiad (o astudiaeth 2018)

A1.23 Roedd y senario twf poblogaeth cyn y dirwasgiad yn seiliedig ar gyfraddau ymfudo mewnol a rhagdybiaethau llifau ymfudo rhyngwladol ar gyfer y cyfnod cyn dirwasgiad 2008 (2001/02 – 2007/08), pryd cofnodwyd llifau mewnfudo uwch i Sir Gaerfyrddin.



Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG Pre-Recession	26,559	14.2%	13,479	16.6%	2,097	959	930

A1.24 Er y byddai defnyddio senario â thwf uwch yn y boblogaeth wedi golygu bod pobl 15-19 yn dal i adael y sir, byddai mwy'n dychwelyd yn y garfan oedran 20-24 a fyddai wedi arwain at ragolwg demograffig cytbwys ar gyfer y sir.

A1.25 Byddai defnyddio senario'r amcanestyniad hwn fel targed gofynion twf tai o fewn y CDLI diwygiedig wedi bod yn gymesur â'r strategaeth twf yn y CDLI mabwysiedig. Er y byddai'r senario hwn wedi bod yn uchelgeisiol o ran hyrwyddo dyheadau economaidd, byddai gosod gofyniad twf mor uchel drwy'r senario twf poblogaeth cyn y dirwasgiad wedi arwain at strategaeth twf na ellir ei chynnal na'i chyflawni

A1.26 Ni fyddai'r senario hwn wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

[Twf Poblogaeth Tymor Byr – Amrywiolyn \(o astudiaeth 2019\)](#)

A1.27 Roedd yr amrywiolyn Twf Poblogaeth Tymor Byr (2019) yn ystyried cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaeth ynghylch llif mudo rhyngwladol a oedd yn seiliedig ar y cyfnod hanesyddol o bedair blynedd (2014/15-2017/18) ac a oedd yn cyfateb i'r cyfnod pedair blynedd o adfer o ran twf tai.

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Short Term	14,133	7.6%	8,474	10.5%	1,317	603	585	9,040	8,769

A1.28 Yn y senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr, rhagwelwyd y newid lleiaf yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun, sy'n gyson â'r senarios yn adroddiad blaenorol 2018 Edge Analytics. O dan y senario hwn, roedd y twf amcangyfrifedig yn y boblogaeth yn 7.6% dros gyfnod y cynllun, o gymharu â 5.7% yn flaenorol. Roedd hyn o ganlyniad i'r cynnydd sydyn o ran mudo mewnol net yn 2017/18 a gafodd ei gynnwys yn y senario hwn, a'r ffocws ar y pedair blynedd o adfer twf tai.

A1.29 At ei gilydd, byddai defnyddio'r senario hwn wedi darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Byddai wedi caniatáu'r hyblygrwydd i hybu twf cynaliadwy o ran tai, ond cafodd lai o effaith ar gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir na senarios eraill. Ni fyddai gwerth creu swyddi o 288 o swyddi y flwyddyn, neu 4,320 o swyddi dros gyfnod y CDLI wedi bodloni uchelgeisiau Cynllun Adfywio'r Cyngor.

A1.30 Ni fyddai'r senario hwn wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Twf Poblogaeth Tymor Hir – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019)

A.1.31 Roedd senario'r Amrywiolyn Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir yn edrych ar gyfraddau ymfudo mewnol a rhagdybiaethau ynglŷn â llif ymfudo rhyngwladol a oedd yn seiliedig ar y cyfnod hanesyddol llawn o ddwy flynedd ar bymtheg (2001/02-2017/18). Mae'r amrywiolyn hwn yn defnyddio un flwyddyn arall o ddata (2017/18) o gymharu â'r senario Twf Poblogaeth Tymor Hir gwreiddiol yn adroddiad 2018 Edge Analytics

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,811	9.6%	9,726	12.0%	1,516	692	671	10,375	10,065

A1.32 O'r tri senario sy'n seiliedig ar dueddiadau yn astudiaeth 2019, yn y senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir y cafwyd y twf mwyaf yn y boblogaeth, aelwydydd ac anheddau o dipyn.

A1.33 Byddai defnyddio'r amcanestyniad hwn wedi darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Mae'r cynnydd mewn mudo i Sir Gaerfyrddin a welwyd yn amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 wedi cynyddu rhyw ychydig ar yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd o'r hyn a ystyriwyd yn adroddiad senario Twf Poblogaeth Tymor Hir 2018. Nid oedd y niferoedd gofyniad tai yn wahanol iawn i'r rhai a fernid fel yr opsiwn a ffafriwyd yn y Strategaeth a Ffefrir, a byddent wedi caniatáu'r hyblygrwydd i ysgogi twf cynaliadwy mewn tai ac i gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.

A1.34 Byddai'r senario hwn wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Twf Poblogaeth – Amrywiolyn 10 mlynedd (o astudiaeth 2019)

A1.35 ARoedd y senario twf poblogaeth 10 mlynedd yn rhoi sylw i gyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar gyfnod hanesyddol o ddeng mlynedd, gan anwybyddu'r blynyddoedd afreolaidd yn union ar ôl y cwmp ariannol.

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG 10yr	15,115	8.1%	8,538	10.6%	1,337	607	589	9,108	8,835

A1.36 Roedd y senario Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd yn golygu poblogaeth fwy o gymharu â'r senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr. Mae hyn oherwydd ei fod wedi cynnwys amcangyfrifon mudo yn y blynyddoedd yn union cyn y dirwasgiad a'r cyfnod adfer mwy diweddar. Roedd hyn yn golygu twf anheddau blynyddol ar gyfartaledd o +615 ayf, a +596 ayf gan ddefnyddio'r gyfradd eiddo gwag amgen.

A1.37 Byddai defnyddio'r senario hwn wedi darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Byddai wedi caniatáu'r hyblygrwydd i yrru twf tai cynaliadwy a chefnogi uchelgeisiau economaidd y sir. Roedd y berthynas rhwng creu swyddi a chynnydd yn y boblogaeth yn fwy cadarnhaol na'r senario a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir gan fod y gofyniad o ran aelwydydd yn is, gyda thwf cyfrannol y boblogaeth oedran gweithio yn uwch.

A1.38 Byddai defnyddio'r senario hwn wedi cynorthwyo o ran cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

Senarios a arweinir gan gyflogaeth

Employment-led Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
CR Fixed	42,050	22.2%	19,027	23.2%	2,814	1,354	1,313	20,303	19,690
CR Reducing	36,481	19.3%	16,810	20.5%	2,483	1,196	1,160	17,938	17,396

A1.39 Ystyriwyd dau senario gofyniad tai'r dyfodol yn erbyn Astudiaeth Sectorol Cyflogaeth y Cyngor. Roedd yr astudiaeth hon yn tybio cyfradd dwf flynyddol sefydlog ar gyfer sectorau

cyflogaeth allweddol a fyddai'n gwneud y mwyaf o botensial economaidd Sir Gaerfyrddin. Roedd y twf disgwyliedig hwn yn cyfateb i tua 1,245 o swyddi y flwyddyn mewn naw sector cyflogaeth â blaenoriaeth.

A1.40 Byddai defnyddio'r senarios sy'n seiliedig ar gyflogaeth ar gyfer y CDLI diwygiedig a'r gofyniad am dwf uchel a nodir ynddynt wedi arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni ac sy'n anghynladwy ar gyfer y sir. Y gofyniad twf tai a nodwyd yn y CDLI a fabwysiadwyd yw 1,013 o anheddau y flwyddyn, ac un o'r rhesymau dros gynnal adolygiad o'r CDLI oedd er mwyn ailystyried y gofyniad tai hwn am nad oedd y targedau twf tai yn cael eu cyflawni.

A1.41 Er y byddai'r senarios hyn yn uchelgeisiol o ran hyrwyddo dyheadau economaidd, byddai gosod gofyniad twf mor uchel wedi arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni na'i chynnal.

A1.42 Ni fyddai'r senario hwn wedi cyflawni Gweledigaeth ac Amcan Strategol y Cynllun

